Y CRIW
Mentrus

Cynradd Uwch

Gweithgaredd 4:
Allwn ni gynllunio?

Amcan Dysgu

Galluogi'r disgyblion i ddatblygu sgiliau cynllunio a chyflwyno syml.

Nodweddion Entrepreneuriaeth

Cysylltiadau

- Cyflwyno
- Cyfathrebu

Trefniadaeth

- Cynllunio
- Gweledigaeth a gosod amcanion

Gweithgareddau Dysgu

Mae pob busnes angen cynllun sy'n amlinellau sut y bydd yn cael ei sefydlu a'i redeg

Trafodwch yr angen am gynllun busnes gyda'r disgyblion ar gyfer trefnu eu prosiect menter.

Gofynnwch iddynt ystyried cwestiynau allweddol megis:

- *Beth yw eu syniad menter?*
- *Pwy fydd yn gweithio ar eich menter?*
- *Pwy fydd eich cwsmeriaid??*
- *Pwy ydy'ch cystadleuwyr?*
- *Faint o arian fyddwch chi ei angen?*
- *Ble fyddwch chi'n cael yr arian?*
- *Fyddwch chi angen benthyciad? Sut fyddwch yn ei dalu yn ôl?*
- *Sut fyddwch yn cadw llygaid ar yr arian?*
- *Faint o elw ydych yn meddwl y byddwch yn ei wneud?*
- *Beth fyddwch chi'n wneud gydag unrhyw elw?*
- *Pa help fyddwch ei angen?*
- *Am ba hyd fydd eich menter yn parhau?*

Gweithgaredd 4:
Allwn ni gynllunio?

Cynradd Uwch

Mewn grwpiau, mae'r disgyblion yn defnyddio TGCh a'u hatebion i baratoi Cynllun Gweithredu Y Criw Mentrus. Mae'n bwysig bod pawb sy'n ymwneud â'r prosiect menter yn gwybod, deall ac yn cytuno ar gynnwys eu cynllun.

Bydd angen i'r disgyblion gyflwyno eu cynllun busnes i'r Pennaeth (ac o bosib llywodraethwr) er mwyn codi cyfalaf ar gyfer eu menter.

Canlyniad Dysgu
Bydd y disgyblion yn datblygu sgiliau cynllunio a chyflwyno syml.

Adnoddau sydd eu hangen

- TGCh
- Adnodd 4 – Cynllun Busnes Y Criw Mentrus
- Bwrdd gwyn rhyngweithiol

Cwricwlwm ar gyfer Cymru

Meysydd Dysgu a phrofiad

Iechyd a lles

- Mae ein penderfyniadau yn effeithio ar ansawdd ein bywydau a bywydau eraill.

Dyniaethau

- Mae dinasyddion hunanymwybodol, gwybodus yn ymgysylltu â'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu dynoliaeth ac yn gallu cymryd camau moesol ystyriol.

Sgiliau Trawsgwricwlaidd

1. Llythrennedd

Siarad

- Diben
- Ymddiddan cydweithredol
- Cwestiynu

Gwrnado

- Gwrando am ystyr
- Gwrando er mwyn deall
- Gwrando fel rhan o ymddiddan cydweithredol

2. Cymhwysedd Digidol

- Darganfod, chwilio a chynllunio cynnwys digidol
- Rhyngweithio a chydweithredu

Llywodraeth Cymru
Welsh Government